YR ATODLEN

Manylion ychwanegol ynglŷn â rhai ceisiadau

Ceisiadau a wneir o dan Ddeddf 2004

Ceisiadau sy'n ymwneud â thrwyddedu tai amlfeddiannaeth

16.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 31(1) o Atodlen 5 i Ddeddf 2004 (apêl yn erbyn penderfyniad ATLl i ganiatáu, neu wrthod caniatáu, trwydded o dan Ran 2 o Ddeddf 2004, neu yn erbyn unrhyw un o delerau'r drwydded).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) pan fo'r cais yn ymwneud â chaniatáu trwydded neu â thelerau trwydded—

(i) copi o hysbysiadau'r ATLl o dan baragraffau 1 a 7 o Atodlen 5 i Ddeddf 2004, ac o unrhyw hysbysiad o dan baragraff 3 o'r Atodlen honno; a

(ii) copi o'r drwydded; a

(b) pan fo'r cais yn ymwneud â gwrthodiad i ganiatáu trwydded, copi o hysbysiadau'r ATLl o dan baragraffau 5 ac 8 o'r Atodlen honno.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r ATLl.